# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 9 a 16 Tachwedd 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Laura Anne Jones:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda chyrff eraill dan y Llywodraeth i hybu cyfleoedd chwaraeon yng Nghymru? (WAQ48463)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol ar draws Cymru yn ei chwarae i wireddu nodau ac amcanion 'Dringo'n Uwch'.

Drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, yr ydym, ynghyd â'r awdurdodau lleol, yn datblygu ein rôl eiriol a chefnogi er mwyn i seilwaith ffisegol priodol ac adnoddau dynol gael eu darparu mewn cymunedau lleol. Bydd angen i ddyluniad cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol roi sylw i'r argymhellion yn adolygiad Beecham parthed cyflenwi gwasanaethau'n lleol i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru wrth iddynt esblygu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff cyflenwadau tanwydd eu cyflenwi i Wylfa ar ôl 2010? (WAQ45963)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Efallai y bydd o ddiddordeb ichi wybod bod yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, sydd wedi bod yn edrych ar barhad y cyflenwad tanwydd i Wylfa fel rhan o'r adolygiad i archwilio'r opsiynau er mwyn ymestyn oes weithredol yr orsaf, wedi adrodd heddiw. Gellir cyrchu at ei adroddiad drwy wefan yr awdurdod ar http://www.nda.gov.uk/documents/wylfa report redacted.pdf

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ei thargedau ar gyfer lleihau anafiadau ffyrdd? (WAQ48425)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd targedau 2010 o ran lleihau'r nifer o bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd mewn damweiniau ffyrdd. Dengys ffigurau 2005 ein bod eisoes wedi cyrraedd y gostyngiad o 50 y cant yn y nifer o blant sy'n cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd ac yr ydym dri chwarter o'r ffordd tuag at y targed o 40 y cant o ostyngiad yn y nifer o bobl sy'n cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd. Yr ydym hefyd wedi rhagori ar y targed o ostyngiad o 10 y cant yn y gyfradd mân anafiadau fesul 100 miliwn cilometr cerbyd.

**Nick Bourne:** Pa feini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu pwy ddylai ymweld â Chwpan Ryder yn Iwerddon, ar gost Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ48450)

**Andrew Davies:** Penderfynwyd pa swyddogion a gwesteion ddylai ymweld â Chwpan Ryder yn Iwerddon ar gost Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol, sy'n edrych ar eu gallu i:

effeithio ar ddatblygiad economaidd Cymru;

dod â buddsoddiad i Gymru;

cynyddu'r adnoddau golff a gwesty yng Nghymru;

cynyddu twristiaeth golff ryngwladol yng Nghymru;

codi proffil rhyngwladol Cymru;

darparu cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus rhyngwladol perthnasol a chadarnhaol i Gymru;

dod yn llysgennad rhyngwladol i Gymru;

helpu i sicrhau Cwpan Ryder llwyddiannus yn 2010;

noddi CRC neu ei bartneriaid;

dod â digwyddiadau rhyngwladol eraill i Gymru;

codi proffil Casnewydd a/neu ysgogi buddion i Gasnewydd (yn cynnwys logisteg digwyddiadau);

dysgu o ddigwyddiad 2006;

trefnu digwyddiadau Tîm Cymru yn Iwerddon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli cyflogau athrawon i Gymru? (WAQ48449)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Dim. Pan roddais dystiolaeth i'r corff adolygu cyflogau athrawon ym mis Medi, fe'i gwneuthum yn glir nad oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd a fwriadwyd i ddatganoli cyfrifoldeb am gyflogau ac amodau athrawon i Gymru.

**Nick Bourne:** Beth oedd y gost o gynhyrchu'r ddogfen 'Gwlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', ac at bwy yr anfonir y ddogfen? (WAQ48454)

**Jane Davidson:** Mae'r gost lawn o gynhyrchu 'Gwlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yn £15,747. Caiff y ddogfen ei dosbarthu i bob rhanddeiliad allweddol, yn cynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion, awdurdodau lleol, undebau llafur, y sectorau busnes a gwirfoddol.

**Janet Ryder:** A oes gan raglen gwariant cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adeiladau ysgol newydd safon fewnol ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni? (WAQ48462)

**Jane Davidson:** Fel amod grant o dan grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i safonau'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu ar gyfer ysgolion o ran dull asesu amgylcheddol. Mae'n hynny'n wir am bob prosiect ysgol newydd, estyniad a chynllun ailwampio sylweddol.

**Nick Bourne:** A yw cyllideb addysg y Cynulliad yn cynnwys cyllid i helpu ysgolion a niweidir gan losgwyr bwriadol? (WAQ48465)

**Jane Davidson:** Nac ydyw. Mater i'r awdurdodau lleol yw yswirio rhag y posibilrwydd o danau bwriadol a difrod arall i'w hysgolion ynghyd â'u stoc adeiladau arall. Pe bai awdurdodau lleol yn dymuno gwneud buddsoddiad cyfalaf ychwanegol, gan ddefnyddio'u dyraniad oddi wrth y Cynulliad, bydd hynny'n wariant dilys.

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i sicrhau nad amharir ar addysg y plant yn Ysgol Mair Ddifrycheulyd yn Hwlffordd yn dilyn y tân diweddar? (WAQ48466)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdod addysg lleol a'r ysgol yw penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o sicrhau nad amharir ar addysg y disgyblion yn sgil y tân. Deallaf eu bod yn cynnal trafodaethau am fesurau priodol i sicrhau bod addysg y disgyblion yn parhau. Dylai'r gwaith ar yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Mair Ddifrycheulyd yn lle'r un a losgwyd, sy'n cael cymorth grant dan raglen gyfalaf Llywodraeth y Cynulliad i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, gael ei gwblhau erbyn diwedd y mis hwn.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yng Nghymru? (WAQ48467)

**Jane Davidson:** Yn 2005-06, cafwyd 25,465 o gofrestriadau ar gyrsiau Cymraeg i oedolion ac yr oedd 17,030 o ddysgwyr unigol. Mae gan Gymraeg i oedolion rôl arbennig o bwysig i'w chwarae o ran gwireddu nod Llywodraeth y Cynulliad o Gymru ddwyieithog ac mae'n cael ei ailstrwythuro ar hyn o bryd gyda'r nod o sicrhau lefelau uwch o ddysgwyr rhugl.

Cam cyntaf yr ailstrwythuro yw sefydlu chwe chanolfan iaith bwrpasol, a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd y mae Cymraeg i oedolion yn cael ei gynllunio ar lefel ranbarthol, a'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ei chyllido drwy'r canolfannau newydd o 2007. Bydd yr ailstrwythuro yn gyfrwng i feithrin gallu, sefydlu gwell trefniadau sicrhau ansawdd, gwell marchnata a gwell dilyniant gan ddysgwyr o un lefel i'r nesaf. Y nod yw sicrhau bod lefelau uwch o ddysgwyr yn dod yn rhugl. Bydd y canolfannau hefyd yn darparu cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gyrfaol i diwtoriaid a byddant yn rhoi gwell cefnogaeth a chyngor i ddysgwyr. Caiff y chwe chanolfan eu lansio'n ffurfiol mewn cynhadledd Cymraeg i oedolion ar 17 Tachwedd. Digwyddiad hyfforddi fydd hwn a bydd ac yn gyfle i rannu'r arferion gorau yn y maes.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Lisa Francis:** Pa sicrwydd all y Gweinidog ei roi y bydd cleifion Sglerosis Ymledol yn gallu cael y cyffuriau DMT y mae arnynt eu hangen? (WAQ48470)

**Lisa Francis:** A all y Gweinidog gadarnhau y bydd yr holl gleifion MS yng Nghymru, o ganlyniad i'r arian ychwanegol ar gyfer therapïau addasu clefydau a gyhoeddwyd ar 30 Hydref 2006, yn gallu cael y cyffuriau a ragnodir gan eu meddygon ar gyfer eu cyflwr? (WAQ48475)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Bydd y £700,000 o arian ychwanegol sydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer therapïau addasu clefydau yn galluogi'r canolfannau rhagnodi a gomisiynwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru i ddechrau trin cleifion MS yng Nghymru a oedd wedi cael eu hasesu gynt fel cleifion sy'n gymwys i gael eu trin, ynghyd ag unrhyw gleifion newydd sy'n dod gerbron dros weddill 2006-07.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ48471)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yn y Canolbarth a'r Gorllewin wedi cael eu comisiynu gan y byrddau iechyd lleol er mis Medi 2004. Bu'r newid o wasanaethau dan arweiniad meddygon teulu i wasanaeth dan arweiniad BILlau yn llwyddiannus iawn. Bydd y BILlau yn parhau i fonitro perfformiad y gwasanaethau o ran eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd.

**Lisa Francis:** Yn dilyn datganiad Cabinet ysgrifenedig y Gweinidog ar 30 Hydref 2006, a wnaiff y Gweinidog ddweud pa gyffuriau fydd yn derbyn cyllid ychwanegol? (WAQ48476)

**Brian Gibbons:** Y cyffuriau therapïau addasu clefydau penodol y darperir cyllid ar eu cyfer drwy gynllun rhannu risg MS yw:

Copaxone (Glatiramer asetad)

Rebif 22 (interfferon beta)

Rebif 44 (interfferon beta)

Beta Interferon: a (interfferon beta)

Avonex (interfferon beta)

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddogion yn yr uned Cymunedau yn Gyntaf sydd â chymwysterau ym maes datblygu cymunedol? (WAQ48272)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** O ran rhan gyntaf eich cwestiwn, mae 25 o staff yn yr uned Cymunedau yn Gyntaf.

Parthed eich cais am fanylion am unrhyw staff sy'n gweithio yn yr uned sydd â chymwysterau achrededig yn ymwneud â datblygu cymunedol, megis Cymwysterau NOCS mewn Datblygu Cymunedol, dylwn nodi mai'r Ysgrifennydd Parhaol sydd ag awdurdod dirprwyedig dros faterion recriwtio yn hytrach na Gweinidogion y Cynulliad.

Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod y gwasanaeth sifil yn draddodiadol wedi disgwyl i dimau fod â sgiliau generig yn hytrach na sgiliau arbenigol ac mae uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r angen i ystyried cydbwysedd rhwng sgiliau generig a sgiliau arbenigol ac mae'n ymdrin â hyn drwy'r rhaglen sgiliau proffesiynol ar gyfer Llywodraeth, ymysg eraill. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod mewn cyfnod cymharol gynnar, ond bydd yr uned Cymunedau yn Gyntaf yn cysylltu'n agos â chydweithwyr yn y tîm strategaeth adnoddau dynol i ystyried y goblygiadau i'r dyfodol o ran datblygu'r tîm.

Hefyd, wrth recriwtio i swyddi, mae pwyslais ar gymwyseddau fel 'profiad o weithio gyda phartneriaid allanol, yn cynnwys grwpiau cymunedol'. Mae hynny'n wir am recriwtio mewnol ac allanol. Mae staff mewn swyddi yn cael eu datblygu i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a pharhad fel bod modd iddynt barhau mewn maes gwaith y mae ganddynt ymrwymiad iddo. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi dod â swyddogion ar secondiad sydd â phrofiad priodol i mewn er budd partneriaethau, staff a'r rhaglen drwyddi draw.

Yn ogystal, nid rôl bennaf yr uned Cymunedau yn Gyntaf yw darparu cyngor arbenigol ar faterion datblygu cymunedol i bartneriaethau a staff sy'n gweithio ar y rhaglen. Mae'r rôl hon yn perthyn yn fwy naturiol i amryw o asiantaethau cefnogi, yn cynnwys rhwydwaith cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, cynghorau gwirfoddol sirol a'r nifer o fawr o dimau cefnogi o fewn awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n cael grant. Mae llawer o'r asiantaethau cefnogi hyn yn cynnwys staff sydd â chymwysterau perthnasol ac, yn fwy cyffredin, brofiad o ddatblygu cymunedol.